**ATODIAD 2**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY

## Gwasanaethau tân ac achub fforddiadwy ar gyfer

## Gogledd Cymru

## Dadansoddi Ymgynghoriad 2016

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| Cyfradd Ymateb a Nodweddion | 2 |
| Dadansoddiad o'r Ymatebion i'r Holiadur Ar-lein | 3 |
| Ymatebion Ysgrifenedig/E-bost | 9 |
| Ymatebion ar y Cyfryngau Cymdeithasol | 11 |
| Casgliadau | 11 |
| Atodiadau | 12 |

## Crynodeb Gweithredol

Yn hydref 2016 fe wnaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus o'r enw *'Gwasanaethau tân ac achub fforddiadwy ar gyfer Gogledd Cymru'*. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd pawb a oedd â diddordeb i roi eu barn ynglŷn â sut y dylid datblygu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru yn y blynyddoedd nesaf. Gofynnwyd i bobl ymateb i'r ymgynghoriad drwy'r post, drwy'r e-bost a thrwy holiadur ar-lein.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 12fed Rhagfyr 2016, ac mae'r adroddiad hwn yn edrych ar yr ymatebion a gafwyd.

Yn gyntaf, dyma ddadansoddiad o'r ymatebion drwy'r holiadur ar-lein:

- Ymatebodd cyfanswm o 346 o bobl drwy'r holiadur ar-lein. Roedd cyfansoddiad demograffig yr ymatebwyr yn eithaf cymysg, gyda rhai agweddau'n eithaf amrywiol (e.e. cyfeiriadedd rhywiol, rhyw) a rhai eraill yn cynnwys un categori yn bennaf (e.e. cyfeiriadedd rhywiol, dewis iaith). Roedd y rhan fwyaf o'r ymateion gan aelodau o'r cyhoedd, gyda'u hanner bron yn dweud eu bod yn byw yn sir Wrecsam.
- Canfu'r arolwg fod y rhan fwyaf o bobl yn cefnogi'r farn *'Ni ddylid gwneud unrhyw doriadau i wasanaethau tân ac achub – fe ddylai'r cynghorau sir dalu'r costau ychwanegol'.*
- Canfu'r arolwg hefyd fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno *'Ni ddylid torri gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru (hyd yn oed os yw hyn yn golygu y bydd yn rhaid i bobl dalu mwy o dreth cyngor).'*
- Roedd dros hanner yr ymatebwyr a lanwodd yr holiadur yn anghytuno â'r datganiad *'Os oes rhaid i ni ddod i ben ag un injan dân yn llai, yna byddai'n gwneud synnwyr cael gwared ar injan dân o'r orsaf dân sydd â'r nifer uchaf o injans tân (h.y. o Wrecsam, sef yr unig orsaf dân yng Ngogledd Cymru sydd â thair injan dân).'*
- Manteisiodd bron i hanner yr ymatebwyr ar y cyfle i lenwi opsiwn neges destun am ddim o fewn yr arolwg, gyda 50 o bobl yn datgan y byddent yn hoffi i'r Awdurdod adfer y gwasanaeth achub anifeiliaid mawr[1] a 38 o bobl yn dweud eu bod yn erbyn cael gwared ar beiriant tân o Wrecsam.

Yn ogystal â chanlyniadau'r holiadur ar-lein, cafodd yr Awdurdod 27 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad drwy e-bost a'r post. Ceir crynodeb o'r ymatebion ar dudalen 7-8 o'r adroddiad hwn.

I gloi, mae'r adroddiad yn canfod bod y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn wedi cefnogi amcanion drafft un a phedwar, a barn mwy rhanedig ar amcanion drafft dau a thri.

[1] Sylwch fod pob un o'r 50 o ymatebion wedi dod i law o fewn cyfnod o 24 awr.

## Cyflwyniad

Fe wnaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos am y Gwasanaethau Tân ac Achub a ddarperir yng Ngogledd Cymru, o'r enw *'Gwasanaethau tân ac achub fforddiadwy ar gyfer Gogledd Cymru,'* a hynny'n enwedig am bedwar amcan drafft yr Awdurdod:

| | |
|---|---|
| **Amcan 1** | Parhau i gadw pobl yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi. |
| **Amcan 2** | Cael ffordd newydd o dalu costau'r Awdurdod. |
| **Amcan 3** | Amddiffyn ein holl gymunedau drwy gynllunio criwiau diffodd tân yn well. |
| **Amcan 4** | Edrych sut y gallwn wneud mwy o bethau ar gyfer ein cymunedau. |

Gwahoddwyd pobl i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy amryw o ffyrdd, a'r brif ffordd oedd drwy holiadur ar-lein. Yn cefnogi'r ymgynghoriad, roedd y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig Facebook, Twitter ac YouTube. Roedd negeseuon a fideos (yn Gymraeg a Saesneg) yn amlinellu'r prif heriau a'r newidiadau sy'n wynebu'r Awdurdod.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 12$^{fed}$ Rhagfyr 2016 ac mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r data a gafwyd drwy'r holiadur ar-lein a'r ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law. Mae'r adroddiad yn dechrau drwy edrych ar y gyfradd ymateb a nodweddion y bobl a gymerodd ran, ac yna mae'n edrych ar yr ymatebion i'r cwestiwn am y pedwar amcan gwella a llesiant drafft a chloi gyda chrynodeb o'r prif themâu a welwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig.

## Cyfradd Ymateb a Nodweddion – Holiadur Ar-lein

## Cyfradd Ymateb

Ymatebodd 346 o bobl i'r holiadur ar-lein; ond fe wnaeth y gyfradd ymateb ostwng wrth i bobl fynd drwy'r holiadur. Felly, o ran pob cwestiwn y cyfeirir atynt isod cafodd y gyfradd ymateb wirioneddol ei dadansoddi gyda nifer yr ymatebion i bob cwestiwn. Dewisol oedd yr adran ar nodweddion yn yr holiadur; felly gellid gweld canlyniadau'r cwestiynau hyn fel sampl o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Roedd cyfansoddiad demograffig yr ymatebwyr yn gymysg, gyda rhai agweddau'n eithaf amrywiol (e.e. oedran, rhyw) a rhai eraill yn cynnwys un categori yn bennaf (e.e. cyfeiriadedd rhywiol, dewis iaith). Gweler Atodiad A i gael rhagor o fanylion.

## Dadansoddiad o'r Ymatebion i'r Holiadur Ar-lein


Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarllen amcanion gwella drafft yr Awdurdod sydd yn nogfen yr ymgynghoriad cyhoeddus ac ymateb i nifer o gwestiynau am yr amcanion. Atebodd cyfanswm o 346 o bobl y cwestiynau isod (Cwestiwn 1 – Cwestiwn 6).

***Cwestiwn 1. Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau pwysig. Yn eich barn chi, beth yw'r pedwar gwasanaeth pwysicaf?***

- Diffodd tanau.
- Achub pobl o wrthdrawiadau traffig ar y ffordd.
- Atal tanau rhag cynnau yn y lle cyntaf.
- Helpu pobl i aros yn ddiogel rhag tanau yn y cartref.
- Cynnal archwiliadau diogelwch tân mewn adeiladau cyhoeddus, ffatrïoedd, gwestai ayb.
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill i gadw pobl yn ddiogel.
- Achub pobl o danau.
- Achub pobl o lifogydd.

Yn yr holiadur ar-lein roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis hyd at bedwar o'r opsiynau uchod. Y categorïau a ddewiswyd fwyaf oedd *'Achub pobl o wrthdrawiadau traffig ar y ffordd'* (270), *'Achub pobl o danau'* (270) a *'Diffodd tanau'* (247).

## Ffigwr 1 – Graff i ddangos ymateb i gwestiwn un (amledd)




***Cwestiwn 2 Wedi blynyddoedd o doriadau, mae'r gost o ddarparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru yn debygol o gynyddu. Beth ddylai ddigwydd nesaf yn eich barn chi?***

- Ni ddylid gwneud unrhyw doriadau i wasanaethau tân ac achub – fe ddylai'r cynghorau sir dalu'r costau ychwanegol.
- Dylid torri rhywfaint o wasanaethau tân ac achub – fe ddylai'r cynghorau sir dalu am rywfaint o'r costau ychwanegol ond nid yr holl gostau.
- Dylid torri llawer o wasanaethau tân ac achub – ni ddylai'r cynghorau sir dalu mwy na'r hyn y maent eisoes yn ei dalu.
- Rhywbeth arall.

Dewisodd y rhan fwyaf o bobl (76.6%) '*Ni ddylid gwneud unrhyw doriadau i wasanaethau tân ac achub – fe ddylai'r cynghorau sir dalu'r costau ychwanegol'*, gyda 14.2% o'r ymatebwyr yn dewis *'Dylid torri rhywfaint o wasanaethau tân ac achub – fe ddylai'r cynghorau sir dalu am rywfaint o'r costau ychwanegol ond nid yr holl gostau.*'

**<u>Ffigwr 2 – Graff i ddangos ymateb i gwestiwn dau (%)</u>**




***Cwestiwn 3 Dywedwch wrthym beth ydych chi'n ei feddwl o'r datganiad canlynol:***

***Ni ddylid torri gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru (hyd yn oed os yw hyn yn golygu y bydd yn rhaid i bobl dalu mwy o dreth cyngor).***

Roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr (83.4%) naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiad hwn. Dim ond canran fechan (7.5%) oedd naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

**<u>Ffigwr 3 – Graff i ddangos yr ymateb i gwestiwn tri (%)</u>**




**Cwestiwn 4 Dywedwch wrthym ni beth ydych chi'n ei feddwl o'r datganiad canlynol:**

**Os oes rhaid i ni ddod i ben ag un injan dân yn llai, yna byddai'n gwneud synnwyr cael gwared ag injan dân o'r orsaf dân sydd â'r nifer uchaf o injans tân (h.y. o Wrecsam, sef yr unig orsaf dân yng Ngogledd Cymru sydd â thair injan dân).**

Roedd dros hanner (53.1%) yr ymatebwyr naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r datganiad. Roedd bron i un rhan o dair (27.0%) naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno, tra'r oedd 19.8% yn dewis yr opsiwn niwtral sef *'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno'.*

**<u>Ffigwr 4 – Graff i ddangos yr ymateb i gwestiwn pedwar (%)</u>**




**Cwestiwn 5 *Dywedwch wrthym ni beth ydych chi'n ei feddwl o'r datganiad canlynol:***

***Mae atal tanau yr un mor bwysig â diffodd tanau.***

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (80.8%) naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiad, tra'r oedd 5.8% naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd 13.4% o'r ymatebwyr heb fod yn cytuno nac yn anghytuno.

**<u>Ffigwr 5 – Graff i ddangos yr ymateb i gwestiwn pump (%)</u>**




**Cwestiwn 6** ***Dywedwch wrthym beth rydych yn ei feddwl o'r datganiad canlyniad:***

***Oherwydd ein bod ni wedi bod mor llwyddiannus o ran lleihau nifer yr argyfyngau yng Ngogledd Cymru, mae'n gwneud synnwyr i'r gwasanaeth tân ac achub ddod o hyd i bethau eraill i'w gwneud i helpu pobl leol.***

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (56.8%) naill ai'n cytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r datganiad hwn. Nid oedd dros chwarter yr ymatebwyr (26.2%) yn cytuno nac yn anghytuno, gyda 17.1% naill ai'n dewis anghytuno neu anghytuno'n gryf.

**<u>Ffigwr 6 – Graff i ddangos yr ymateb i gwestiwn chwech (%)</u>**



**Ymatebion yn rhoi sylwadau ychwanegol**

Yn ogystal â'r cwestiynau a gyflwynwyd, cafodd yr ymatebwyr gyfle i wneud sylwadau ychwanegol. Penderfynodd 164 ymatebydd wneud hynny. Gellir gweld categorïau bras eu hymatebion isod:

**Tabl 1 – Tabl i ddangos maes pwnc y sylwadau ychwanegol**

| Mae Pwnc | Nifer yr Ymatebion |
|---:|---:|
| Adfer Achub Anifeiliaid Mawr* | 50 |
| Yn erbyn cael gwared ar y peiriant o Wrecsam | 38 |
| Awgrym | 32 |
| Arall | 16 |
| Yn erbyn lleihau gwasanaethau | 15 |
| Yn ymwneud â chyllid | 9 |
| Cytuno â symleiddio | 4 |
| **Cyfanswm** | **164** |

**Sylwch fod pob un o'r 50 o ymatebion wedi dod i law o fewn cyfnod o 24 awr.*

**Ymatebion Ysgrifenedig/E-bost**

Yn ogystal â'r holiadur ar-lein, cafwyd 27 o ymatebion ysgrifenedig (naill ai ar e-bost neu drwy'r post).

Ceir dadansoddiad isod o darddiad yr ymatebion:

- 5 ymateb gan Gynghorau Sir
- 2 ymateb gan Aelodau Seneddol
- 1 ymateb gan Aelod o'r Cynulliad
- 11 ymateb gan Gynghorau Cymuned/Tref – yn sir Wrecsam yn bennaf
- 1 ymateb gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- 1 ymateb gan Undeb yr FBU
- 1 ymateb gan Gymdeithas y Swyddogion Tân
- 1 ymateb gan Wasanaeth Tân ac Achub cyfagos
- 1 ymateb gan un o weithwyr GTAGC
- 3 ymateb gan aelodau o'r cyhoedd
- 1 ymateb gan sefydliad arall

O'r 27 o ymatebion ysgrifenedig, roedd 69% yn anghytuno â chynnig yr Awdurdod i gael gwared ar un injan dân Amser Cyflawn o orsaf dân shifft 24 awr.

Roedd nifer fawr o'r ymatebion gan gynghorau Cymuned/Tref yn debyg iawn o ran arddull, teimlad ac o ran y ffeithiau a'r ffigyrau a ddefnyddiwyd. Mae'r rhan fwyaf o'r cynghorau yn sir Wrecsam. Roedd pob un o'r ymatebion yn erbyn cynnig yr Awdurdod i gael gwared ar un injan dân Amser Cyflawn.

Roedd naw o'r ymatebion ysgrifenedig yn cefnogi cyllido'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn iawn, gan ddisgrifio hynny'n 'hanfodol'.

Roedd nifer fach o'r ymatebion yn cyfeirio'n benodol ar amcan drafft un, sef *'Parhau i gadw pobl yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi.'* Roedd y rhai a oedd yn gwneud hynny yn cefnogi'r amcan.

Cafwyd ymateb cymysg gan y Cynghorau Sir:

- Roedd Cyngor Sir y Fflint yn gwbl o blaid y pedwar amcan gwella drafft.
- Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gwbl o blaid y pedwar amcan gwella drafft.
- Roedd ymateb Cyngor Sir Ddinbych yn ymateb yn benodol i amcan drafft dau, sef *'Cael dull newydd o gwrdd â chostau'r Awdurdod',* gan anghytuno â'r amcan a dweud *'mae'n ymddangos yn afresymol fod y Gwasanaeth Tân yn cynnig cynnig o +4% yn y gwariant yn 2017/18, ond yna'n cynnig rhewi'r ardoll am y ddwy flynedd ddilynol, tra'n gohirio'r arbedion trawsnewid / effeithlonrwydd tan 2019/20.'*
- Roedd ymateb Cyngor Gwynedd yn cefnogi amanion drafft un a phedwar, ond o ran amcan tri, *'Amddiffyn ein holl gymunedau drwy gynllunio criwiau diffodd tân yn well.'* Awgrymodd Cyngor Gwynedd fod yr Awdurdod yn ystyried adolygu ei drefniadau gyda diffoddwyr tân amser cyflawn yn ogystal â diffoddwyr tân y system RDS. At hynny, o ran amcan dau, roedd Cyngor Gwynedd yn anghytuno â chamau arfaethedig yr Awdurdod gan ddweud *'Mae'n annerbyniol fod y Gwasanaeth Tân yn cynnig cynnydd +4% mewn gwariant yn 2017/18 ac am osgoi arbedion trawsnewid/effeithlonrwydd tan 2019/20'.'*
- Roedd ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cefnogi amcanion drafft un a phedwar, tra'n anghytuno ag amcan drafft tri, gan ddweud*'Mae'n afresymol blaenoriaethu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru dros wasanaethau eraill Llywodraeth Leol, a dylai wneud arbedion i arwain at newidiadau yn y gyllideb yn unol â'r Setliad Dros Dro ar gyfer Llywodraeth Leol'.* Hefyd, o ran amcan drafft tri, roedd eu hymateb yn dweud *'Mae Cyngor Wrecsam yn chwyrn yn erbyn unrhyw gynnig i gael gwared ar injan dân o'r dref, a hynny er lles diogelwch y dref ond hefyd oherwydd y gofal y mae'r injan yn ei ddarparu i orsafoedd tân eraill ledled y Bwrdeistref Sirol'* ac *'ni ddylai*

*problemau cyllido i gorff rhanbarthol gael eu datrys drwy doriadau i'r gwasanaeth yn ardal un Cyngor Bwrdeistref Sirol – dyma ateb lleol i broblem ranbarthol.'*

## Yr Ymatebion ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Drwy gydol y broses ymgynghori, fe wnaeth y Gwasnaaeth gynnal ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i annog cynifer o bobl â phosibl i ymateb i'r ymgynghoriad.

Fe wnaeth y Gwasanaeth gyhoeddi 40 o negeseuon dwyieithog ar Facebook, gan gyrraedd ffrydiau newyddion 63,968 o ddefnyddwyr gyda 1,279 o ddefnyddwyr yn rhyngweithio drwy glicio ar y postiadau.

Hefyd, fe wnaeth y Gwasanaeth drydar 40 o negeseuon dwyieithog (drwy Twitter). Cafodd y negeseuon eu gweld 70,045 o weithiau ac fe wnaeth 539 o ddefnyddwyr ryngweithio.

Fe wnaeth y Gwasanaeth uwchlwytho dau fideo drwy YouTube i esbonio'r ymgynghoriad. Gwelwyd y ddau fideo 416 o weithiau.

Yn ogystal â'r uchod, fe wnaeth y Gwasanaeth gynnal arolygon ar Facebook yn gofyn cwestiynau penodol (yn deillio o'r holiadur ymgynghori ar-lein). Mae canlyniadau'r arolygon yn adlewyrchu'n fras ganfyddiadau'r prif holiadur. Er enghraifft, pan ofynnwyd cwestiwn dau (gweler tudalen 3) drwy Facebook dewisodd 71.4% *'Ni ddylid gwneud unrhyw doriadau i wasanaethau tân ac achub – fe ddylai'r cynghorau sir dalu'r costau ychwanegol',* ac mae hyn yn gyson â'r ffigyrau a adroddwyd o'r holiadur ar-lein (76.6%).

## Casgliad


I grynhoi, canfu'r ymgynghoriad fod y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd yn cefnogi amcanion drafft un a phedwar, gyda'r farn yn fwy rhanedig ynglŷn ag amcanion drafft dau a thri.

## Atodiad – Nodweddion yr Holiadur Ar-lein

## Iaith


O'r 346 o bobl a ymatebodd, fe wnaeth 1.4% hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.  I'r gwrthwyneb, fe wnaeth 98.6% o'r ymatebwyr wneud hynny drwy'r Saesneg.

**Ffigwr 7 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl iaith yr holiadur (%)**




O ran dewis iaith, fe wnaeth 267 o bobl ymateb a dywedodd 85% eu bod yn dewis Saesneg, o gymharu â 12% yn dewis Cymraeg. Hefyd, roedd yn well gan 2.2% beidio â dweud a dewisodd 0.8% 'Arall'.


**Ffigwr 8 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl dewis iaith (%)**



## Hunaniaeth Genedlaethol

O ran hunaniaeth genedlaethol ymatebodd 291 o bobl, dewiswyd 'Cymreig' 168 o weithiau, 'Prydeinig' 79 o weithiau, 'Seisnig' 36 o weithiau, dewiswyd 'Arall' ddwywaith, 'O Ogledd Iwerddon' unwaith ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' bum gwaith.

### Ffigwr 9 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl hunaniaeth genedlaethol





## Lleoliad, Math o Ymateb a Chyflogaeth/Gweithgarwch

Lleoliad

O'r 346 o ymatebwyr, roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn byw yn sir Wrecsam (44.2%), gyda 13.6% yn dweud (sir) Conwy, 11.3% Sir y Fflint, 11.0% Sir Ddinbych, 7.8% Gwynedd a 6.6% yn dweud Ynys Môn (roedd y 5.5% arall wedi'u rhannu ledled gweddill Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig).


### Ffigwr 10 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl lleoliad (%)



Math o Ymateb

O’r 346 o bobl a ymatebodd, roedd y rhan fwyaf ohonynt (70.5%) yn eu disgrifio eu hunain fel ‘aelod o’r cyhoedd’, tra’r oedd 18.5% yn eu categoreiddio eu hunain fel gweithwyr i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a’r 11.6% arall wedi’u rhannu rhwng y rhai yr oedd yn well ganddynt beidio â dweud (4.6%) a sefydliadau/swyddi eraill.


**Ffigwr 11 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl y modd roedd yr ymatebwyr yn eu categoreiddio eu hunain (%)**




Cyflogaeth/Gweithgarwch

O’r 267 o bobl a ymatebodd, dywedodd dros hanner (55.1%) eu bod yn *‘Gyflogedig mewn swydd lawn amser (30 awr neu fwy yr wythnos)’*, gyda 12.7% o’r ymatebwyr yn dweud eu bod yn *‘Gyflogedig mewn swydd ran amser (dan 30 awr yr wythnos)’* a 10.5% wedi’u categoreiddio fel ‘Wedi ymddeol yn llwyr o waith’. Roedd y 21.7% arall wedi’u rhannu rhwng y saith categori arall.


**Ffigwr 12 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl statws cyflogaeth/gweithgarwch (%)**



## Oedran

O'r 267 o bobl a ymatebodd, roedd ymrwymiad pendant gan bobl ymhob categori oedran gwahanol. Y bobl a gynrychiolid fwyaf oedd pobl 45 -54 oed, a roddodd 31.1% o'r ymatebion. O gymharu, nid oedd fawr o gynrychiolaeth ymysg pobl 16 – 24 oed nac ymysg rhai 75 oed a throsodd.

**Ffigwr 13 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl oedran (%)**





## Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol

### Rhyw

O'r o'r 267 o bobl a ymatebodd y rhaniad oedd 53.9% yn Ferched a 43.4% yn Ddynion (yn ogystal â 2.6% yr oedd yn well ganddynt beidio â dweud).


**Ffigwr 14 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl Rhyw (%)**



Cyfeiriadedd Rhywiol

O'r 272 o bobl a ymatebodd, dywedodd y rhan fwyaf (86.8%) 'Heterorywiol neu Strêt'. Roedd yr 13.2% arall wedi'u rhannu rhwng 'Deurywiol' (1.5%), 'Hoyw neu Lesbiaidd' (1.5%), 'Arall' (0.4%) ac 'Mae'n well gen i beido â dweud' (8.1%).

**Ffigwr 15 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol (%)**





## Nodweddion Eraill

Anableddau

O'r 267 o bobl a ymatebodd i'r cwestiwn; *'a yw eich gweithgarwch bob dydd wedi ei gyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am o leiaf 12 mis?'* dywedodd 86.5% 'Na' a dywedodd 9.7% 'Ydy'. Hefyd, dewisodd 3.7% 'Mae'n well gen i beidio â dweud'.


**Ffigwr 16 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl Anabledd (%) (n=267)**



Beichiogrwydd

O'r 267 a atebodd y cwestiwn, *'ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu a ydych wedi cael cyfnod mamolaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?'* dywedodd y rhan fwyaf (94.4%) 'Nac ydw / Naddo', tra dywedodd 3.0% 'Ydw' a dewisodd 2.6% yr opsiwn 'mae'n well gen i beidio â dweud'.


**Ffigwr 17 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl Beichiogrwydd (%)**




Crefydd

O'r 267 o bobl a ymatebodd pan holwyd yr ymatebwyr am Grefydd, dywedodd 47.9% 'Cristion (pob enwad)', dywedodd 44.6% 'Dim Crefydd' a 4.1% ''Mae'n well gen i beidio â dweud. Roedd y 3.3% arall wedi dweud 'Unrhyw grefydd arall' (2.2%) a 'Bwdhaeth' (1.1%).


**Ffigwr 18 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl Crefydd (%)**



Statws Priodasol

O'r 267 o bobl a ymatebodd, y prif gategori a ddewiswyd oedd *'priod'* (61.8%), gyda 16.9% yn dewis *'Sengl (erioed wedi priodi/partneriaeth sifil)'* a dewisodd 9.4% y categori *'Wedi ysgaru*. Roedd y 12.0% arall wedi'u rhannu rhwng y categorïau eraill.


## Ffigwr 19 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl statws priodasol (%)




## Ethnigrwydd

O'r 267 o bobl a ymatebodd, dewisodd 93.6% y categori *'Cymreig / Seisnig / Albanaidd / O Ogledd Iwerddon / Prydeinig'*, tra dewisodd 4.5% 'mae'n well gen i beidio â dweud'. Roedd y 1.9% arall wedi'u rhannu rhwng y categorïau eraill.

## Ffigwr 20 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl Ethnigrwydd



# Gwasanaethau Tân ac Achub Fforddiadwy ar gyfer Gogledd Cymru

## Ymgynghoriad 2016 – Y Themâu Allweddol yn yr Ymatebion Ysgrifenedig

### 1. Pryderon penodol am Wrecsam

Mynegwyd peth pryder y byddai tynnu injan dân amser cyflawn o dref fawr fel Wrecsam yn gadael y boblogaeth leol yn agored i berygl ac ni fyddai'r Gwasanaeth yn gallu ymdopi â'r llwyth gwaith.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod pryderon yn ardal Wrecsam, ac mae wedi dweud yn gyson mai yn gyndyn y daeth i'r casgliad y byddai angen cael gwared ar beiriant tân amser cyflawn er mwyn cael yr arbedion angenrheidiol.

Ond mater i bob Awdurdod Tân ac Achub yw penderfynu ar nifer yr injanau tân a'u lleoliad yn eu hardaloedd eu hunain, a hynny ar sail y risgiau hysbys a fforddiadwyedd. Fodd bynnag, dengys y cymariaethau y byddai un injan dân amser cyflawn ac un RDS yn Wrecsam nid yn unig yn cyfateb i'r ddarpariaeth yng Nglannau Dyfrdwy a'r Rhyl, er enghraifft, ond fe fyddai hefyd yn gyson â'r ddarpariaeth gofal tân mewn rhannau eraill o Gymru ac mewn trefi a dinasoedd o faint tebyg yn y Deyrnas Unedig.

Mae dyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod ei adnoddau'n cael eu defnyddio mor effeithiol ag y bo modd er mwyn darparu gwasanaethau fforddiadwy i Ogledd Cymru gyfan. Byddai'r cynnig hwn yn sicrhau y byddai yna injan dân amser cyflawn ac RDS yn Wrecsam o hyd, ac na fyddai'r un cymuned yn gweld ei gorsaf dân yn cau.

**2** Roedd nifer o'r ymatebion yn mynegi pryderon tebyg neu rai yr union yr un fath ynglŷn â thynnu peiriant tân o Wrecsam:

a) <u>Twf a ddisgwylir yn y boblogaeth yn Wrecsam</u>

Roedd pryder na fyddai'r Gwasanaeth yn gallu ymdopi â'r cynnydd yn y galw gan boblogaeth fwy o faint a ragwelir ar gyfer y sir. Roedd pobl yn cyfeirio at 20% o gynnydd ym mhoblogaeth y sir dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Yn ôl ffigyrau diweddaraf a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2016, rhagwelir y bydd poblogaeth ardal bresennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynyddu rhyw 13,300 (9.7%), gan gyrraedd 150,000 erbyn y flwyddyn 2039. Hi fyddai'r sir ail fwyaf yng Ngogledd Cymru o hyd.

Fodd bynnag, dengys y dystiolaeth fod nifer y tanau mewn ardal yn cael ei benderfynu gan amrediad llawer ehangach o ffactorau na dim ond nifer y bobl sy'n byw yno. Ers y flwyddyn 2000, mae poblogaeth Gogledd Cymru 30,000 o bobl yn fwy, ond mae nifer y tanau wedi gostwng rhyw 3,000 y flwyddyn.

Hefyd, nid rhywbeth unigryw i Wrecsam yw twf poblogaeth. Mae'r un rhagolygon yn rhagweld y bydd poblogaeth Gwynedd yn cynyddu mymryn dros 10,000 (8.4%), Conwy bron i 2,000 (1.7%), Sir Ddinbych tua 2,500 (2.7%), a Sir y Fflint tua 2,100 (1.3%). Ar Ynys Môn, yn ôl y sôn, byddai'r gweithlu adeiladu ar orsaf bŵer Wylfa Newydd tua 12,000 o bobl ar ei anterth.

Rhaid i gynlluniau'r Awdurdod fod yn gallu darparu gwasanaethau ledled Goledd Cymru gyfan, a rhaid i benderfyniadau am nifer a lleoliad peiriannau tân ystyried anghenion yr holl ardal. Gan nad yw'r adnoddau'n ddi-ben-draw, a bod lefelau presennol y galw gweithredol yn gostwng, mae'r Awdurdod o'r farn, hyd yn oed drwy gael un peiriant tân yn llai yn Wrecsam, fod y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol. Cydnabyddir y gallai fod angen cael newidiadau penodol, dros dro yn y ddarpariaeth yn Ynys Môn ar gyfer cyfnodau allweddol yn Wylfa Newydd a'r prosiectau cysylltiedig.

b) <u>Ystâd ddiwydiannol fawr</u>

Cyfeiriodd nifer o bobl at ystâd ddiwydiannol Wrecsam fel rheswm dros gadw tair injan dân yn Wrecsam.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod safleoedd diwydiannol ymhob rhan o Ogledd Cymru (gan gynnwys y rheini yn Wrecsam a Glannau Dyfrdwy) yn achosi risg, ond caiff y risgiau hynny eu rheoli drwy reoliadau llym sy'n ymwneud â diogelwch yr amgylchedd a diogelwch yn y gweithle. Mae Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynllunio ei wasanaethau i sicrhau y gallai ymateb i unrhyw un o'r safleoedd hynny mewn argyfwng, ond mae hefyd yn ymwneud ag atal tanau yn ei swyddogaeth fel yr Awdurdod gorfodi ar gyfer rheoliadau diogelwch tân.

Oherwydd natur eu gweithrediadau, dynodir rhai safleoedd yn safleoedd COMAH a chânt eu rheoleiddio'n llym. O'r 14 o safleoedd COMAH yng Ngogledd Cymru (5 Haen Uchaf a 9 Haen Isaf), mae dau wedi'u lleoli ym mwrdeistref sirol Wrecsam. Rhaid rheoli'r safleoedd hyn mewn ffordd sy'n lleihau'r risg i weithwyr a'r cyhoedd drwy'r dyluniad, rheoli prosesau, mesurau lliniaru a gweithdrefnau argyfwng

er mwyn atal damweiniau mawr a chyfyngu ar eu canlyniadau os ydynt yn digwydd. Petai yna ddigwyddiad, byddai injanau tân o nifer o orsafoedd tân yng Ngogledd Cymru yn cael eu hanfon.

Gan fod cyfrifoldebau'r Awdurdod yn berthnasol i Ogledd Cymru gyfan, mae injanau tân a pheiriannau arbenigol yn cael eu lleoli'n strategol er mwyn ymateb ledled yr holl ardal. Os yw'r gofal mewn un ardal yn denau, tynnir peiriannau o ardal arall i gyflenwi. Felly er bod peiriannau'n cael eu neilltuo i orsaf 'gartref', cedwir golwg ar y sefyllfa ledled Gogledd Cymru gyfan er mwyn sicrhau'r cyflenwad gorau posibl ar unrhyw adeg.

c) Carchar EM Berwyn

Roedd rhai ymatebion yn cyfeirio at agor carchar newydd yn Wrecsam yn Chwefror 2017, i letya 2,100 o ddynion dan drefniadau diogelwch 'categori C' (h.y. ar gyfer rhai na ellir ymddiried ynddynt dan amodau carchar agored, ond y credir eu bod yn annhebygol o geisio dianc).

O ran y posibilrwydd o danau yng Ngharchar EM Berwyn, nid yw ffigyrau a ddarperir gan y ddau GTA arall yng Nghymru ynglŷn â throi allan i garchardai Caerdydd ac Abertawe (a'r ddau yn Gategori B, sef categori uwch), na gwybodaeth gan gynrychiolwyr Carchar EM Berwyn ei hun, yn awgrymu unrhyw lefelau o weithgareddau ymateb a fyddai'n effeithio'n fawr o gwbl ar lwyth gwaith y Gwasanaeth.

Mae materion sy'n ymwneud â'r trefniadau diogelwch tân yn y carchar yn cael eu trin gan arolygwyr Llywodraeth Cymru oherwydd adeiladau'r Goron yw carchardai ac nid ydynt yn dod dan awdurdodaeth yr Awdurdod Tân ac Achub lleol.

O ran mwy o weithgaredd yng nghyffiniau'r carchar gan staff ac ymwelwyr, nid ydym yn rhagweld unrhyw anawsterau penodol o ran tagfeydd traffig nac oherwydd bod ymwelwyr â'r carchar yn aros dros nos yn ardal Wrecsam, ond byddwn yn cadw golwg ar hyn ac os gwelwn broblem byddwn yn gweithio gyda'r awdurdodau perthnasol i'w datrys.


ch) Achosion o losgi bwriadol

Roedd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyfeirio at Wrecsam fel rhywle sy'n cael ei effeithio'n arw gan ddigwyddiadau llosgi bwriadol, ac mae ffigyrau a anfonwyd atom gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dangos bod 174 o ddigwyddiadau llosgi bwriadol wedi cael eu cofnodi gan yr heddlu yn sir Wrecsam yn y flwyddyn flaenorol.

Nid yw'r tanau bwriadol y mae'r gwasanaeth tân ac achub yn mynd atynt yn cyfateb o reidrwydd i'r diffiniad o weithredoedd troseddol o losgi bwriadol, ond mae tua hanner yr holl danau y mae'r Gwasanaeth yn mynd atynt yng Ngogledd Cymru bob blwyddyn wedi cael eu cynnau'n fwriadol.

Yn 2009/10, aeth y Gwasanaeth at 1,536 o danau bwriadol. Drwy waith ataliol effeithiol, gan gynnwys gyda thîm cyfunol o'r heddlu a'r gwasanaeth tân ar gyfer lleihau llosgi bwriadol, roedd y ffigwr hwnnw wedi mwy na haneru i 703 erbyn 2015/16. O'r 703 o danau bwriadol, roedd 42% ohonynt yn ardal bwrdeistref sirol Wrecsam, gyda'r gweddill mewn rhannau eraill o Ogledd Cymru.

Gan edrych yn benodol ar danau ym mwrdeistref sirol Wrecsam, mae'r graff yn dangos sut mae nifer y tanau bwriadol yn yr ardal honno wedi sefydlogi ers 2013/14, ond hefyd sut mae cyfanswm y tanau wedi gostwng yn y blynyddoedd diweddar.




Ffigur 1: Tanau damweiniol a bwriadol Wrecsam

Mae'r Gwasanaeth yn anfon adnoddau i fynd at danau ni waeth a yw'r tanau hynny'n ddamweiniol ynteu'n rhai bwriadol (ni fyddai hyn yn cael ei benderfynu hyd nes ar ôl i'r Gwasanaeth fod yno). Felly, wrth ystyried gallu'r Gwasanaeth i ddelio â nifer uchel y tanau bwriadol ym mwrdeistref sirol Wrecsam, rhaid gweld hyn yng nghyd-destun cyfanswm nifer y tanau yn yr ardal, sydd wedi gostwng o gymharu â rhai blynyddoedd yn ôl.

Er mor arwyddocaol yw'r gwaith ataliol a wneir gan yr Awdurdod, nid yw'r cymhelliad pam y cafodd tân ei gynnau yn ystyriaeth bwysig wrth gynllunio ei ymateb gweithredol.

## 3 Mynd at ddigwyddiadau dros y ffin

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub wneud trefniadau gydag Awdurdodau Tân ac Achub cyfagos i fynd at ddigwyddiadau wrth ymyl y ffin. Roedd rhai ymatebwyr yn bryderus nad yw'r Awdurdod efallai wedi ystyried ei drefniadau â Gwasanaethau Tân ac Achub Swydd Amwythig, Swydd Gaer a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, ac nad yw'r trefniadau hyn yn gynaliadwy efallai petai gostyngiadau'n digwydd i'r gwasanaethau ar ddwy ochr y ffin. Ar ôl trafod hyn â Gwasanaethau Tân ac Achub cyfagos, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw newidiadau yn eu cynlluniau a fyddai'n cael effaith sylweddol ar y trefniadau hyn.

Dan ddarpariaethau Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (y Ddeddf), rhaid i bob Awdurdod Tân ac Achub arwyddo Cynllun Atgyfnerthu gyda'r awdurdodau tân ac achub eraill er mwyn sicrhau cymorth i'w gilydd i ymateb i danau, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac argyfyngau eraill. Defnyddir y trefniadau hyn yn rheolaidd ar gyfer mynd at ddigwyddiadau ar y ffiniau rhwng ardaloedd dau Awdurdod Tân ac Achub, a byddai unrhyw benderfyniad i fynychu digwyddiadau o'r fath yn cael ei wneud ar sail cael digon o adnoddau ar gael ar adeg y cais.

Fodd bynnag, nid oes raid cyflogi diffoddwyr tân yn arbennig i ddarparu gofal y tu allan i ardal yr Awdurdod, er bod y Ddeddf yn gwneud darpariaeth i awdurdodau tân ac achub, os ydynt yn dymuno, arwyddo Cynlluniau Cyflawni Swyddogaethau gydag awdurdodau tân ac achub eraill i ddarparu gwasanaethau ar eu rhan. Nid yw Awdurdod Tân ac Achub (ATA) Gogledd Cymru erioed wedi ystyried bod lefel y galw trawsffiniol yn arwydd fod angen cael cynllun o fath gyda'i ATAau cyfagos, a hynny nid fel derbynnydd nac fel darparwr gwasanaethau tân ac achub. Nid ydym yn rhagweld y byddai cael gwared ar beiriant tân amser cyflawn o Wrecsam yn effeithio ar y sefyllfa hon.

## 4 Amseroedd cyrraedd

Roedd rhai pobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn poeni y byddai'n cymryd mwy o amser i'r Gwasanaeth Tân ac Achub gyrraedd tân petai yna un injan dân yn llai yn Wrecsam.

Mae'n werth nodi bod amseroedd cyrraedd ar lefel y Deyrnas Unedig wedi bod yn cynyddu'n raddol dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Roedd cyhoeddiad diweddar gan y Swyddfa Gartref (Bwletin Ystadegol 01/17) yn cydnabod ei bod yn anodd pennu'r union achos, ond gallai fod oherwydd lefelau traffig ar y ffyrdd, polisïau iechyd a diogelwch a 'gyrru i gyrraedd', a holi'r galwr yn fanylach cyn anfon allan. Beth bynnag fo'r rheswm, mae'r gwaith o ddadansoddi amseroedd cyrraedd yn Lloegr wedi dangos y bu cynnydd o 6 eiliad ar gyfartaledd y flwyddyn ers 2010/11 wrth fynd at brif danau (y mathau mwy difrifol o danau sy'n niweidio pobl neu'n achosi difrod i eiddo). Fodd bynnag, roedd hefyd yn dangos nad oes patrwm cysylltiedig o fwy o anafusion tân neu fwy o ddifrod tân er y cynnydd cyson hwn dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Nid oes rheswm i gredu bod y sefyllfa'n ddim gwahanol yng Nghymru.

Pan fo'r Gwasanaeth yn derbyn galwad 999, mae gweithredwyr yr Ystafell Reoli yn y Gwasanaeth yn defnyddio systemau electronig cymhleth i gynorthwyo i anfon y peiriant (peiriannau) tân priodol at ddigwyddiad. Mae hyn yn cymryd sgil a phrofiad, a'r nod yw cael peiriant tân at y digwyddiad cyn gynted ag y bo modd.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gallai tynnu peiriant amser cyflawn effeithio ar yr amser cyrraedd a gyfrifir, ac mae hynny'n un rheswm pam yr oedd yn gyndyn o wneud hynny. Fodd bynnag, roedd yr opsiynau eraill i sicrhau arbedion yn golygu cael gwared ar adnoddau rheng flaen a fyddai bron yn siŵr yn arwain at amseroedd cyrraedd lawer hirach yn lleol a ledled y Gwasanaeth. Ni all yr Awdurdod bwysleisio digon pa mor bwysig yw atal tân, a bydd yn parhau â'i waith i gefnogi pobl i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r cyfarpar cywir i fod yn ddiogel rhag tân.

## 5 Effaith anghymesur gostyngiadau yn y gwasanaeth

Roedd rhai pobl a oedd yn erbyn cael gwared ar injan dân amser cyflawn o Wrecsam yn gweld hynny fel gostyngiad annheg yn y gwasanaeth mewn un ardal yn unig, yn enwedig gan fod y strategaeth ariannol yn golygu y byddai gofyn o hyd i'r cyngor bwrdeistref sirol dalu'r costau blynyddol am redeg y gwasanaeth tân ac achub. Aeth rhai mor bell ag awgrymu na ddylai gostyngiadau yn y gwasanaeth gael eu cyfyngu i un ardal sirol yn unig, ac y dylai pob sir gymryd cyfran o'r gostyngiadau yn y gwasanaeth.

Mae'r Awdurdod yn darparu gwasanaethau tân ac achub i Ogledd Cymru gyfan. Nid oes yr un rhan o Ogledd Cymru yn gwbl ddibynnol ar yr adnoddau tân sydd wedi'u lleoli yn ei hardal ei hun. Mae injanau tân a pheiriannau arbenigol eraill yn croesi o un ardal i'r llall, ac mae gwasanaethau eraill, fel yr Ystafell Reoli, yn cael eu darparu'n ganolog yn hytrach nag o chwe lle gwahanol. Mae'r cyfraniad ariannol a wneir gan y cynghorau sir yn talu am wasanaethau tân ac achub yn eu hardal, ond nid yw'n gyfyngedig i'r adnoddau sydd yn eu hardal nhw yn unig.

Byddai tynnu injan dân o Wrecsam yn golygu lleihau gwasanaeth ar gyfer Gogledd Cymru gyfan, nid dim ond ar gyfer Wrecsam, ond byddai hefyd yn golygu cynnydd bychan yn y cyfraniadau ariannol nag a fyddai ei angen fel arall petai'r Awdurdod yn penderfynu peidio â chwtogi ar y gwasanaethau.

Hefyd, mae'r cyfraniad blynyddol yn talu am yr holl wasanaethau a ddarperir, gan gynnwys gwaith ataliol yn y gymuned, archwiliadau diogelwch tân ar safleoedd, gwasanaethau'r Ystafell Reoli, a gorbenion canolog fel hyfforddiant, TGCh a chynnal a chadw eiddo. Mae Wrecsam yn elwa ar adnoddau sydd mewn rhannau eraill o Ogledd Cymru, ac fel arall. Byddai cyfrifo'r cyfraniadau blynyddol ar sail faint o beiriannau tân sydd yn ardal y sir, a bilio ar wahân am gostau eraill, yn anghymesur o aneffeithlon a drud.

## 6 Diogelwch diffoddwyr tân

Soniwyd am ddiogelwch diffoddwyr tân yn rhai o'r ymatebion. Mae'r Awdurdod yn cymryd diogelwch ei staff o ddifri, ac mae'n mynnu cael y safonau uchaf wrth reoli iechyd a diogelwch. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gadw ei ddiffoddwyr tân mor ddiogel â phosibl ac mae ganddo hanes da yn hyn o beth.

Mae nifer y peiriannau tân a diffoddwyr tân sy'n cael eu hanfon at ddigwyddiad yn cael ei rag-gynllunio a'i reoli'n ofalus, a gellir cynyddu neu leihau'r adnoddau yn ôl yr hyn a benderfynir gan y swyddog â gofal am y digwyddiad ar y pryd. Mae'r diffoddwyr tân yn cael eu hamddiffyn gan gyfarpar gwarchod personol o safon uchel. Mae'r modd y mae digwyddiadau'n cael eu trin hefyd yn cael ei rag-gynllunio a'i reoli'n ofalus, a dim ond criwiau llawn fyddai'n cael eu hanfon at ddigwyddiadau: ni fyddai'r Gwasanaeth fyth yn gosod ei ddiffoddwyr tân mewn perygl drwy beidio ag anfon digon o staff i ymdrin â digwyddiad yn ofalus. Byddai digwyddiad mawr neu hirfaith mewn un lleoliad yn denu adnoddau o leoliadau eraill, naill ai i ddod i'r digwyddiad neu i fod wrth gefn ymhellach i ffwrdd i lenwi bylchau yn y gofal.

Ni fyddai cael gwared ar beiriant tân yn newid y ffordd y mae diffoddwyr tân sydd â hyfforddiant a chyfarpar da yn mynd i'r afael â digwyddiadau gweithredol, na'r trefniadau System Rheoli Digwyddiadau y mae wedi'u mabwysiadu ar gyfer rheoli'r digwyddiadau hynny.

## 7 Cyfrifiadau ariannol

Roedd nifer o'r ymatebion yn ymwneud â'r penderfyniadau a'r cyfrifiadau ariannol a wnaed gan yr Awdurdod.

i) <u>Costau ychwanegol</u>

Roedd rhai ymatebion yn dweud y byddai yna gostau ychwanegol fel ffioedd galw allan i griwiau RDS ddod i ddigwyddiadau yn hytrach na'r criw amser cyflawn a fydd wedi cael ei dynnu o Wrecsam, ac roeddent yn meddwl a oedd hyn wedi cael ei ystyried wrth gyfrifo'r arbedion cyffredinol.

Mae'r swyddogion yn ymwybodol o'r mater hwn. Mae'n anodd rhagweld costau sy'n seiliedig yn llwyr ar lefel gweithgaredd, yn enwedig pan ddangoswyd bod y gweithgaredd hwnnw yn dibynnu ar amrywiadau fel y tywydd. Cedwir golwg ar yr eitem hon er ni ddisgwylir y bydd yr effaith ar y targed arbedion angenrheidiol yn sylweddol.

ii) Gwneud arbedion yn gynt

Roedd ymatebion dau gyngor sir (Gwynedd a Sir Ddinbych) yn cwestiynu maint y cynnydd yn y cyfraniadau a gynigir ar gyfer y flwyddyn gyntaf, ac yn dadlau y dylai'r Awdurdod leihau ei gostau'n gynt na'r drydedd flwyddyn a gynigir (2019/20).

Y rhesymeg dros adael y gostyngiad tan y drydedd flwyddyn yw y byddai hyn yn osgoi rhai o'r costau a'r heriau sy'n gysylltiedig â diswyddo diffoddwyr tân yn orfodol. Petai'r 24 o swyddi diffoddwyr tân yn cael eu dileu'n gynt, ni fyddai digon o amser i leihau maint y gweithlu'n raddol, felly byddai hynny'n cynyddu'r costau i'r Awdurdod. Hefyd, byddai hyn yn cynyddu'r risg o gysylltiadau diwydiannol gwael, gan arwain o bosibl at fwy fyth o gostau petai gweithredu diwydiannol yn dod i ganlyn hynny i ymateb i gynlluniau o'r fath.

iii) Cyfyngu ar y cynyddiadau yn y cyfraniadau gan y cynghorau sir

Fe wnaeth dau gyngor sir (Gwynedd a Wrecsam) awgrymu hefyd na ddylai unrhyw newid canrannol yn y cyfraniadau i'r Awdurdod Tân ac Achub fod yn uwch na'r newid canrannol cyfartalog yn nyraniad y cyllid canolog gan y Llywodraeth i'r cynghorau sir (y setliad ariannol i Lywodraeth Leol).

Nid yw'r awgrym hwn yn ymarferol oherwydd hanes yr Awdurdod o rewi ei gyllideb (ac un eithriad bach) ers 2010/11 er gwaethaf y cynyddiadau yn y grant Llywodraeth Leol yn y blynyddoedd hwnnw, er bod hwnnw'n fach. Mae hyn wedi sicrhau bod yr Awdurdod wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r gostyngiad cyffredinol mewn gwariant cyhoeddus yn y cyfnod hwnnw.

Yn anffodus, rydym wedi cyrraedd y pwynt pryd y byddai dilyn y cynnydd canrannol cyfartalog yng ngwariant Awdurdodau lleol yn gwneud cyllideb y Gwasanaeth yn anghynaladwy, a byddai angen gostyngiadau i'r gwasanaeth ar raddfa llawer mwy na'r hyn a gynigir yn yr ymgynghoriad. Nid yw'r Awdurdod yn fodlon cymryd y cam hwn.

iv) Ffynonellau eraill i gael arbedion ac incwm

Roedd rhai ymatebion yn awgrymu bod modd i'r arbedion arfaethedig a ddaw drwy gael gwared ar injan dân amser cyflawn o Wrecsam gael eu canfod yn rhywle arall, er enghraifft drwy ostwng nifer swyddi uwch reolwyr a staff cymorth; cael arbedion effeithlonrwydd drwy gydweithio neu uno; cael cyllid ychwanegol gan y llywodraeth; ceisio cyfraniadau gan y cyhoedd; neu drwy gynhyrchu incwm, yn arbennig ar gyfer darparu gwasanaethau newydd.

Mae llawer o'r awgrymiadau a wnaed yn yr ymatebion yn adlewyrchu materion y mae'r Awdurdod eisoes wedi edrych arnynt dros nifer o flynyddoedd yn ceisio gwneud arbedion effeithlonrwydd. Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn y ddogfen ymgynghori yn dangos yr union symiau a wariwyd dan wahanol benawdau gan yr Awdurdod yn 2015/16. Roedd hefyd yn esbonio mai prin eithriadol yw'r llefydd lle gellid arbed £900,000 y flwyddyn. Byddai'n amhosibl trosglwyddo cyfrifoldebau uwch reoli i staff is heb gyflog ychwanegol, er enghraifft, a byddai trosglwyddo swyddi cymorth i staff ar raddfeydd cyflog gweithredol yn anfforddiadwy.

Mae'r Gwasanaeth eisoes yn cydweithio, a hynny'n genedlaethol i ganfod arbedion cost, ac yn lleol i wella bywydau pobl leol, ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu arbedion mawr o ran costau i'r Awdurdod. Byddai cyfuno awdurdodau tân ac achub yn golygu ailddosbarthu cost darparu gwasanaethau ar draws ardal fwy o faint, ond ni fyddai'n lleihau cost darpariaeth reng flaen heb leihau gwasanaethau.

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu'r System Rheoli Digwyddiadau, a gydnabyddir yn genedlaethol, sy'n diffinio'r lefelau rheoli sydd eu hangen i gefnogi systemau diogel ac effeithiol o weithio mewn digwyddiadau gweithredol. Mewn cyfarfod arbennig yn Rhagfyr 2014, penderfynodd yr Awdurdod leihau nifer y swyddi swyddogion gweithredol o 32 i 28, ond gan dderbyn cyngor y Prif Swyddog Tân y byddai unrhyw ostyngiad dan 28 yn creu risg annerbyniol i'r Awdurdod ac i ddiogelwch staff gweithredol mewn digwyddiadau.

Byddai angen i gyllid allanol o unrhyw ffynhonnell fod yn gynaliadwy er mwyn cadw swyddi diffoddwyr tân o'r naill flwyddyn i'r llall. Byddai diflaniad sydyn yn gallu golygu diswyddo diffoddwyr tân mewn modd costus heb gynllunio.

O ran creu incwm ychwanegol drwy godi tâl ar sefydliadau sy'n bartneriaid inni am ddarparu gwasanaethau newydd, byddai hyn yn cynyddu'r costau cyffredinol i'r pwrs cyhoeddus. Er ailgodi tâl am gostau ychwanegol i'r Awdurdod, mae'r meddylfryd y tu ôl i gynnig gwasanaethau ychwanegol yn ymwneud â darparu gwasanaethau gwell i'r cyhoedd a defnyddio'r capasiti sydd ar gael rhwng adegau prysur – nid mater o gymryd arian gan sefydliad sy'n bartner inni er mwyn cael incwm ychwanegol.

v) Y cyfleuster Tân ac Ambiwlans sydd newydd agor

Roedd nifer o'r ymatebion yn feirniadol o amseriad agor cyfleuster y Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans yn Wrecsam, gyda rhai'n awgrymu y dylai'r arian sydd wedi'i wario ar yr adeilad hwnnw fod wedi cael ei ddefnyddio'n well.

Er bod y gwahaniaeth rhwng y math hwn o wariant cyfalaf wedi cael ei esbonio yn y ddogfen ymgynghori, mae diffyg dealltwriaeth o hyd ynglŷn â chyllidebau cyfalaf (sef cyfleuster benthyca sy'n debyg i forgais ac nad yw'n cael ei dalu fel arian i'r Awdurdod bob blwyddyn) a chyllidebau refeniw (arian go iawn yn y banc sydd ar gael i'w wario yn ystod y flwyddyn, a'i ail-lenwi bob blwyddyn). Felly er bod arian ar gael ar gyfer y gwaith adeiladu, ni fyddai wedi bod ar gael ar gyfer cyflogau.

Hefyd, cafodd y penderfyniad i symud i gyfleuster newydd ei wneud bron i ddegawd yn ôl, gyda'r Awdurdod yn cyfrannu tuag at gost datblygu yn gynnar, ar adeg pan fyddai anawsterau ariannol ar y lefelau a welwn ar hyn o bryd wedi ymddangos yn annhebygol iawn. Byddai tynnu allan o'r prosiect ar ôl gwneud y fath ymrwymiad ariannol wedi denu beirniadaeth deg yn ogystal â gadael y staff yn Wrecsam yn defnyddio adeilad nad oedd yn addas i'r diben mwyach.

Mae penderfyniad yr Awdurdod i fwrw ymlaen â'r Ganolfan Adnoddau newydd wedi sicrhau cyfleuster cyfunol hynod fodern sydd eisoes yn gwireddu manteision gweithredol i'r gymuned.

## 8 Gwneud penderfyniadau'n agored

Roedd rhai ymatebwyr yn dymuno gweld aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yn bod yn fwy agored am y modd y maent yn gwneud penderfyniadau, gan drefnu bod eu cymheiriaid yn y cynghorau sir yn gwneud mwy o waith craffu ar eu cynlluniau gwario.

Mae cyfarfodydd Awdurdod Tân ac Achub ar agor i'r cyhoedd, ac mae'r papurau a'r adroddiadau ar gael oddi ar y wefan. Mae'r cynghorwyr sir sydd wedi'u henwebu i sefyll ar yr Awdurdod yn bwynt cyswllt i roi gwybodaeth i bob cyngor sir. Mae'r Awdurdod ei hun yn cwrdd fel Awdurdod llawn, ond mae ganddo hefyd Banel Gweithredol a Phwyllgor Archwilio sy'n cwrdd ar wahân.

## 9 Cefnogaeth i Amcanion 1 a 4

Roedd cefnogaeth gyffredinol i gadw pobl yn ddiogel mewn cartrefi, gan gydnabod gwerth y cydweithio rhwng sefydliadau i helpu i amddiffyn y cartrefi sy'n fwyaf agored i beryglon.

Roedd cefnogaeth bwyllog i ymestyn rôl y GTA, ar yr amod na ddylai hyn effeithio ar wasanaethau craidd na chynyddu'r cost gyffredinol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau tân ac achub.